



NODYN BRIFFIO 2: Blaenoriaethu Atal, Llesiant Cymunedol a Chysylltiad

Y cais: Rydym eisiau i bawb fyw mor dda ac annibynnol â phosibl, wedi'u cysylltu â'u ffrindiau, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae angen blaenoriaethu a gwella buddsoddiad mewn gwasanaethau er mwyn atal afiechyd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Gall y dulliau hyn liniaru neu ohirio'r angen am ofal a chymorth mewn argyfwng.

Cyfeiriad i'w groesawu

Rydym yn croesawu'n gynnes benodiad Gweinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn arwydd arwyddocaol a chadarnhaol bod atal yn cael ei gymryd o ddifrif ar lefelau uchaf y llywodraeth, ac rydym yn cael ein calonogi bod grwpiau gwleidyddol eraill yn y Senedd yn alinio eu llefarwyr o amgylch yr agenda iechyd a llesiant ataliol. Mae ADSS Cymru yn credu bod Cymru sy'n buddsoddi'n briodol mewn atal, llesiant cymunedol a chysylltu yn Gymru sy'n gwario llai ar ofal argyfwng, sydd â phoblogaeth iachach a mwy cynhyrchiol yn economaidd, ac sy'n adeiladu cyfalaf cymdeithasol sy'n elwa pawb. Nid yn unig mae'r achos dros y buddsoddiad hwn yn foesebol: mae'n economaidd, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn frys.

Mae'r newid hwn mewn ffocws gwleidyddol yn adlewyrchu cyfeiriad y mae ADSS Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'n partneriaid yn y sector wedi bod yn ei hyrwyddo ers peth amser. Mae'r sector gofal cymdeithasol wedi deall ers tro nad ar bwynt argyfwng y ceir yr ymyriadau mwyaf pwerus a chosteffeithiol, ond yn llawer cynharach ym mywydau ac amgylchiadau pobl. Mae llywodraeth a Senedd sy'n rhannu'r gred honno'n creu'r amodau ar gyfer newid ystyrion a pharhaol.

Yn hollbwysig, rhaid darparu adnoddau priodol ar gyfer yr agenda ataliol os yw am symud y tu hwnt i ddyhead. Dim ond drwy gael eu cefnogi gan fuddsoddiad cynaliadwy, wedi'i glustnodi yn y gwasanaethau cymunedol a'r seilwaith sy'n galluogi atal y bydd newidiadau strwythurol cadarnhaol a'r portffolios gweinidogol newydd yn gwireddu eu potensial.

Pam mae llesiant a chysylltiad cymunedol yn bwysig

Nid gwasanaeth ymylol yw gofal cymdeithasol. Nid yw'n estyniad o'r GIG nac yn adnodd olaf un pan fydd popeth arall yn methu ychwaith. Fel mae blaenoriaethau ADSS Cymru 2025–28 yn ei egluro, mae gwir werth gofal a chymorth cymdeithasol yn gorwedd yn yr hyn sy'n digwydd yn llawer cynharach: wrth atal niwed, cynnal llesiant, ac adeiladu teuluoedd a chymunedau cryf a chysylltiedig lle gall pobl fyw'r bywydau o'u dewis.

Mae'r dystiolaeth yn glir bod ynysigrwydd cymdeithasol a chysylltiad gwael â'r gymuned ymhlith y ffactorau risg mwyaf arwyddocaol ar gyfer afiechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal ag ar gyfer cynyddu'r galw am wasanaethau aciwt. Mae effaith unigrwydd ar iechyd yn debyg i effaith ysmegu pymtheg sigarét y dydd. Mae datgysylltu oddi wrth y gymuned yn cyflymu dirywiad gwybyddol, yn cynyddu'r risg o gwmpo ac yn lleihau gwydnwch. Nid pryderon haniaethol yw'r rhain: maent yn trosi'n uniongyrchol i dderbyniadau i'r GIG, atgyfeiriadau gofal cymdeithasol a gweithredu ymatebion argyfwng costus.

NODYN BRIFFIO 2: Blaenoriaethu Atal, Llesiant Cymunedol a Chysylltiad

Er enghraifft, cwblhaodd timau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru dros 64,000 o asesiadau yn 2025–26. Ym mis Mawrth 2026 yn unig, cawsant fwy na 18,000 o gysylltiadau gan ddinasyddion. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu nid yn unig y galw, ond maint yr angen heb ei ddiwallu mewn cymunedau ledled Cymru. Y tu ôl i bob cyswllt mae unigolyn a allai, gyda chymorth cynharach a gwell, beidio â bod wedi cyrraedd pwynt argyfwng o gwbl.

Ar ben hynny, er bod sylw gwleidyddol a chyhoeddus yn aml yn canolbwyntio ar lwybrau gofal wedi'i oedi, mae timau gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru yn cefnogi degau o filoedd o bobl yn y gymuned bob blwyddyn. Mae'r nifer gymharol fach o'r bobl hynny sydd yn yr ysbyty ar unrhyw adeg benodol (557 ar ddiwedd mis Ebrill 2026) yn dangos bod prif swyddogaeth gofal cymdeithasol yn seiliedig ar y gymuned ac yn ataliol, nid yn adweithiol ac yn wynebu'r ysbyty. Rhaid i ni fod yn ymwybodol o hynny a rhaid i fuddsoddi adlewyrchu'r realiti hwnnw.

Mae'r pwysau demograffig yn dwysáu. Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym, gyda rhagamcanion yn dangos twf sylweddol yn nifer y bobl 80 oed a throsodd erbyn 2040. Bydd cynnydd yn nifer yr achosion o ddementia ac mewn cyflyrau hirdymor, amlafiachedd ac eiddilwch yn cynyddu'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd oni bai fod y system yn newid i ddull sy'n wirioneddol ragofalus. Tynnwyd sylw at sut y gallai dulliau ataliol sy'n seiliedig ar y gymuned leihau'r galw am wasanaethau aciwt yn sylweddol os cânt adnoddau priodol parhaus gan gyflwyniad ADSS Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i gefnogi pobl â chyflyrau cronig.

Gwasanaethau cyfleoedd dydd, seibiant a seibiannau byr

Mae gwasanaethau cyfleoedd dydd a seibiant ymhlith yr offer ataliol mwyaf pwerus sydd ar gael i awdurdodau lleol. Maent yn cadw pobl mewn cysylltiad, yn cynnal annibyniaeth, yn cefnogi gofalwyr di-dâl, ac yn atal y mathau o ddirywiad sy'n arwain at dderbyniadau i'r ysbyty a lleoliadau gofal hirdymor. Eto i gyd, mae'r gwasanaethau hyn wedi bod dan bwysau sylweddol a pharhaus.

Gwyddom o'n gwaith adolygu fod pandemig COVID-19 wedi tarfu'n fawr ar y ddarpariaeth gwasanaeth hon. Gorfodwyd llawer o wasanaethau i gau; nid yw rhai wedi adfer yn llwyr. Er bod awdurdodau lleol wedi dod o hyd i fodelau newydd ac arloesol i ddarparu'r gwasanaethau hyn, dangosodd tystiolaeth nad oedd nifer sylweddol o bobl wedi dychwelyd i wasanaethau ers iddynt ailagor, a lle roedd gwasanaethau wedi ailddechrau, roedd argaeledd wedi lleihau mewn llawer o achosion o ran amllder a hyd.

Canfu'r adolygiad gynnydd mewn cymhlethdod ymhlith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, gyda rhai darparwyr yn nodi bod angen cymorth un-i-un neu ddau-i-un ar 80 y cant o'r bobl sy'n mynychu bellach, o'i gymharu â 50 y cant cyn y pandemig. Dywedodd gofalwyr di-dâl fod y baich arnynt wedi dwysáu. Disgrifiodd un gofalwr sut, ar ôl dwy flynedd o ofalu ar ei phen ei hun am ei gŵr sy'n byw gyda chlefyd Parkinson, fod mynediad at wasanaeth dydd wedi caniatáu iddi adennill pwysau, ailgysylltu â ffrindiau, a theimlo'n hyderus y gallai barhau yn ei rôl ofalu.

Tynnwyd sylw yn yr adolygiad at bryder sylweddol hefyd: lle'r oedd gwelyau seibiant preswyl ar gael ochr yn ochr â gwasanaethau dydd yn flaenorol, roedd y gwelyau hyn yn cael eu defnyddio fwyfwy i reoli rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ar draul eu swyddogaeth ataliol. Gan nad yw gwasanaethau cyfleoedd dydd a seibiant yn statudol yn yr un modd â gwasanaethau eraill, pan fydd cyllidebau dan bwysau dyma'r gwasanaethau cyntaf i gael eu torri'n aml. Mae ADSS Cymru yn credu bod yn rhaid i hyn newid: rhaid cydnabod a diogelu'r gwasanaethau hyn, a darparu adnoddau ar eu cyfer, fel cydrannau craidd o'r seilwaith ataliol.

Cefnogi gofalwyr di-dâl

Mae gan Gymru tua 370,000 o ofalwyr di-dâl sy'n hanfodol i gynnal ein system gofal a chymorth. Ac eto mae gofalwyr di-dâl eu hunain mewn perygl sylweddol o ynysigrwydd cymdeithasol, dirywiad

NODYN BRIFFIO 2: Blaenoriaethu Atal, Llesiant Cymunedol a Chysylltiad

iechyd corfforol a meddyliol, a chaledi ariannol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawliau i ofalwyr di-dâl gael asesiad a chymorth yn eu rhinwedd eu hunain, ond yn ymarferol mae'r gwasanaethau sy'n galluogi gofalwyr i gymryd seibiannau ac aros mewn rolau gofalu wedi'u lleihau'n sylweddol. Mae darpariaeth seibiannau byr, gwasanaethau eistedd a chymorth penodol i ofalwyr i gyd wedi crebachu, ac mae Gofalwyr Cymru wedi adrodd yn gyson nad yw gwasanaethau wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig ar gyfer llawer o ofalwyr.

Mae ADSS Cymru wedi gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gryfhau cymorth i ofalwyr di-dâl, gan helpu i lunio rhaglenni cenedlaethol fel y Cynllun Seibiannau Byr a gwelliannau ehangach i hawliau gofalwyr a mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r bartneriaeth hon wedi cefnogi dulliau mwy cyson a rhagweithiol o nodi a chefnogi gofalwyr yn gynharach, gan gydnabod eu rôl hanfodol wrth gynnal annibyniaeth a llesiant mewn cymunedau ledled Cymru. Rydym yn awyddus i adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol hwn gyda'r llywodraeth newydd i ymgorffori ymhellach gymorth ataliol, cymunedol i ofalwyr.

Cadw plant a theuluoedd gyda'i gilydd

Mae cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn rhan ganolog o system gofal cymdeithasol ataliol. Mae ADSS Cymru wedi pwysleisio'n gyson bwysigrwydd symud i ddull rhagofalus, gan fuddsoddi mewn cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd fel bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn y cymorth ymarferol, emosiynol a chymunedol sydd ei angen arnynt ar yr amser iawn, gan atal y sefyllfa rhag gwaethygu i ofal statudol. Drwy gryfhau partneriaethau ar draws awdurdodau lleol, iechyd, addysg, plismona a'r trydydd sector, a buddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth gyffredinol a chynnar, gallwn gefnogi teuluoedd yn well i aros yn ddiogel gyda'i gilydd, gwella cyfleoedd bywyd i blant, a lleihau'r angen am ymyriadau mwy dwys.

Dull system gyfan ar gyfer atal

Ni ellir cyflawni atal effeithiol gan ofal cymdeithasol yn unig. Mae'n gofyn am alinio tai, addysg, hamdden, diwylliant, trafndiaeth a gofal iechyd sylfaenol o amgylch nodau cyffredin llesiant a chysylltiad cymunedol. Mae llywodraeth leol, drwy ei rheolaeth dros lawer o'r gwasanaethau hyn, mewn sefyllfa unigryw i gynnull a chydlynu'r dull system gyfan hwn.

Mae gweledigaeth llywodraeth leol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn galw am gydnabod gofal cymdeithasol fel hyrwyddwr llesiant a byw'n iach sy'n cadw teuluoedd a chymunedau gyda'i gilydd ac yn lleihau'r angen am wasanaethau adweithiol. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos ag ymrwymadau cyn yr etholiad gan bob plaid wleidyddol i greu cymdeithas iachach. Mae ADSS Cymru wedi nodi uchelgais glir i ymgorffori atal mewn systemau sy'n seiliedig ar leoedd drwy weithio ar draws llywodraeth leol, byrddau iechyd a phartneriaid cymunedol i integreiddio gwasanaethau, a hoffem weld hyn yn cael ei gefnogi gan ymrwymadau strwythurol ac ariannol ystyrllon gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i hyn gynnwys cydnabod y rôl hanfodol y mae gofal sylfaenol a chymunedol yn ei chwarae. Mae gwasanaethau fel nyrsio ardal, ffisiotherapi ac ymarfer cyffredinol yn ganolog i helpu pobl i aros yn iach a pharhau i ofalu amdanynt eu hunain, ond mae'r gwasanaethau hyn hefyd o dan bwysau sylweddol o ran adnoddau. Pan mae'r rhan hon o'r system dan straen, mae'n anochel fod mwy o alw yn disgyn ar ofal cymdeithasol.

Heriau a risgiau

Yn gyntaf, mae atal yn cael ei dan-ariannu'n gronig. Mae llif cyllid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gogwyddo'n drwm tuag at ymyrraeth aciwt ac argyfwng, ac mae cyllid grant tymor byr ar gyfer rhaglenni ataliol yn greu ansefydlogrwydd ac yn rhwystro datblygu'r cyfalaf perthynol y mae atal effeithiol yn dibynnu arno. Mae buddsoddiad aml-flwyddyn wedi'i glustnodi mewn atal cymunedol yn hanfodol.

NODYN BRIFFIO 2: Blaenoriaethu Atal, Llesiant Cymunedol a Chysylltiad

Yn ail, mae risg y bydd portffolio gweinidogol iechyd ataliol newydd yn dod yn swyddogaeth gydlynus heb adnoddau cyfatebol. Nid yw bwriadau da a strwythurau effeithiol yn ddigon. Heb gyllid cyfalaf a reffeniw pwrpasol yn llifo i awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau ataliol mewn gwirionedd, bydd yr agenda'n dod i ben.

Yn drydydd, mae pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol wedi gorfodi dewisiadau anodd. Mae adrannau gofal cymdeithasol yn cyfeirio adnoddau fwyfwy tuag at swyddogaethau argyfwng statudol, gan leihau'r capasiti ar gyfer yr ymyrraeth gynnar a'r gwaith adeiladu cymunedol sy'n atal argyfyngau rhag digwydd. Mae hon yn economi ffug y mae'n rhaid i bolisi a chyllid Llywodraeth Cymru ei gwrthweithio'n weithredol.

Er ein bod yn croesawu ymrwymiad cynnar llywodraeth newydd Cymru i ddatblygu map ar gyfer symud adnoddau'r GIG yn agosach at gymunedau, gan gynnwys drwy ofal sylfaenol, ni ddylid fframio hyn fel symudiad i ofal sylfaenol yn unig: rhaid i fuddsoddiad gefnogi'r ecosystem ehangach o wasanaethau cymunedol ac ataliol seiliedig ar le sy'n cadw pobl yn iach, yn annibynnol ac yn gysylltiedig.

Casgliad

Mae ADSS Cymru a'n partneriaid mewn llywodraeth leol wedi ymrwmo i adeiladu cymunedau lle gall pawb fyw'n dda ac yn annibynnol, wedi'u cysylltu â'r bobl a'r lleoedd sy'n bwysig iddyn nhw. Mae penodi Gweinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol a'r aliniad trawsbleidiol cynyddol o amgylch yr agenda hon yn arwyddion gwirioneddol galonogol. Rydym yn barod i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru, gydag Aelodau'r Senedd ar draws pob grŵp, a chyda'n partneriaid iechyd a'r trydydd sector i wireddu'r ymrwymiad hwn.

Ffynonellau allweddol

Llywodraeth Cymru, Nifer y cysylltiadau ac asesiadau a gwblhawyd, StatsCymru (Ebrill 2026); Crynodeb o Wasanaethau i Oedolion, data ciplun a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.

Llywodraeth Cymru, Rhyddhau o'r ysbty wedi'u gohirio: cyfanswm y llwybrau gofal wedi'u gohirio a chyfanswm y dyddiau wedi'u gohirio, StatsCymru (Ebrill 2026).

ADSS Cymru, ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru i rôl awdurdodau lleol wrth gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbty (Chwefror 2025).

Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagamcanion Poblogaeth Cenedlaethol: Yn seiliedig ar 2022 (Ionawr 2025).

ADSS Cymru, ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru i gefnogi pobl â chyflyrau cronig (Mehefin 2023).

ADSS Cymru, Adolygiad o Wasanaethau Cyfleoedd Dydd a Seibiant / Seibiannau Byr: Effaith pandemig COVID-19 ar arloesi a thrawsnewid gwasanaethau (Mai 2023).

CLLILC / ADSS Cymru, Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Chwefror 2026).

ADSS Cymru, ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru i Ofalwyr Di-dâl (Rhagfyr 2025).

ADSS Cymru, Blaenoriaethau 2025–28: Cysylltu Gofal Cymdeithasol yn y Gymuned (2025).

ADSS Cymru yw Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth:

ADSS Cymru, Uned Fusnes, Tŷ Antur, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN